

# Beth yw manteision dysgu chwarae offeryn cerdd?

Mae dysgu chwarae offeryn cerdd yn yr ysgol yn gwella ymddygiad, cof a deallusrwydd plant yn ôl dadansoddiad degawdau o waith ymchwil gan yr Athro Susan Hallam, o Sefydliad Addysg, Prifysgol Llundain. Yn ôl arbenigwyr, pan ydym yn chwarae cerddoriaeth mae dwy ochr yr ymennydd yn goleuo ar yr un pryd, gan greu llwybrau niwral ar gyfer dysgu. Dengys y dystiolaeth ei fod yn rhoi hwb i bwer yr ymennydd, gan symbylu rhannau o'r ymennydd sy'n gysylltiedig â darllen, mathemateg a datblygiad emosiynol. Mae hyn yn helpu disgyblion sydd wedi cael hyfforddiant cerddorol i gofio bron i un rhan o bump yn fwy o wybodaeth. Mae hyn a thystiolaeth mwy gwyddonol yn cadarnhau fod manteision ynghlwm wrth ddysgu offeryn/llais cerddorol, y tu hwnt i ddatblygiad cerddorol yn unig. Mae hefyd yn hyrwyddo hunan-ddisgyblaeth, penderfyniad a sgiliau rheoli amser.

Mae ein gwersi yn hwyliog ac yn cael eu haddasu i anghenion yr unigolyn. Gallant arwain at arholiadau cerddorol neu ganolbwyntio ar fwynhau chwarae yn unig. Rydym yn anelu at alluogi pobl ifanc i ganfod y mwynhad o greu cerddoriaeth, gan eu galluogi ar yr un pryd i ddatgloi eu gwir botensial emosiynol, creadigol a cherddorol. Yn olaf, ac efallai'n bwysicaf oll, mae chwarae offeryn cerdd yn sgil am oes sy'n rhoi pleser i wrandawyr a perfformwyr fel ei gilydd.

## Sut a ble?

Trefnir gwersi Gwasanaeth Cerdd Sir y Fflint drwy'r ysgol; maent yn cael eu haddysgu mewn grwpiau bach yn ystod oriau ysgol ac fel arfer yn para 30 munud. Credwn fod deinameg gwersi grwpiau yn symbylu dysgu a hyrwyddo dealltwriaeth, gan ddarparu ateb cost effeithiol i ysgolion a rhieni ar yr un pryd. Mae'r ysgolion yn darparu cymhorthdal ar gyfer costau'r holl wersi. Mae costau hyfforddi'n amrywio rhwng £3 a £5 am wers 30 munud. Yn gyffredinol mae gwersi preifat yn costio tua £15 am wersi 30 munud felly mae gwerth am arian y Gwasanaeth Cerdd yn amlwg. Dylai dysgwyr sy'n derbyn Prydau Ysgol Am Ddim drafod â'u hysgolion unigol p'un a oes unrhyw gwtogiad ar gael.



## Telerau ac Amodau

Mae 39 wythnos mewn blwyddyn academaidd ac rydym yn cynnig isafswm o 30 o ymweliadau â'r ysgol yn ystod yr wythnosau hynny. Os nad ydym wedi ymweld 30 o weithiau yn ystod y flwyddyn ysgol (er enghraifft, oherwydd salwch athrawon) caiff arian ei ad-dalu i'r ysgol ar ddiwedd y flwyddyn ysgol. Ni roddir ad-daliadau mewn sefyllfaoedd sydd y tu hwnt i'n rheolaeth, e.e. pan fydd y lleoliad wedi cau am resymau diogelwch (tywydd garw ac ati). Os yn bosibl bydd sesiynau'n cael eu trefnu i wneud i fyny am y rhai a gollwyd. Ni ellir ystyried ad-daliadau os yw disgyblion a rhieni'n dewis methu gwersi i gymryd rhan mewn digwyddiadau eraill.

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

## Mae holl diwtoriaid Gwasanaeth Cerdd Sir y Fflint:

- Wedi cymhwyso'n briodol ac wedi'u penodi'n dilyn cyfweliad, clyweliad a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- Yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau drwy raglen hyfforddiant mewn gwasanaeth, gan gynnwys hyfforddiant Amddiffyn Plant ac Iechyd a Diogelwch.
- Yn cael eu cefnogi a'u datblygu drwy raglen barhaus o reoli perfformiad a datblygiad proffesiynol.

## Sut ddylwn i drefnu gwersi?

- Cysylltwch â'ch ysgol rhwng mis Mai a mis Gorffennaf a gofynnwch pa offerynnau y maent yn eu cynnig ar gyfer gwersi cerdd peripatetig.
- Dylech dderbyn dogfen gyfarwyddyd a 'Ffurflen Gytundeb' yn gofyn i chi arwyddo ar gyfer blwyddyn academaidd gyfan.
- Dychwelwch y ffurflen yn brydlon i'r ysgol fel bo modd i'r gwersi ddechrau ym mis Medi.



## Pa offerynnau allaf ddysgu eu chwarae?

Mae pob ysgol yn cynnig ystod o wahanol offerynnau; cysylltwch â'ch ysgol i drafod pa offeryn yr hoffech i'ch plentyn ddysgu ei chwarae. Yn aml mae'r rhain yn cael eu rhestru yn y llythyr gyda'r 'Ffurflen Gytundeb' lle gofynnir i chi roi'ch dewisiadau yn nhrefn blaenoriaeth. Os oes unrhyw amheuaeth, cysylltwch â ni ar music.service@flintshire.gov.uk am arweiniad pellach.

## O ble allaf gael offerynnau cerdd?

Mae dysgwyr a addysgir gan diwtoriaid Gwasanaeth Cerdd Sir y Fflint yn cael mynediad at ei stoc o offerynnau (yn amodol ar argaeledd) drwy Gynllun Benthyca Offerynnau'r Sir. (DS nid oes telynau, gitarau, pianos, allweddellau ac offerynnau taro ar gael drwy'r cynllun hwn). Bydd gofyn i ddysgwyr sy'n defnyddio'r cynllun benthyca i dalu tâl cynnal a chadw blynyddol o £25 i alluogi'r Gwasanaeth Cerdd i ofalu am gyflwr ei stoc o offerynnau cerdd. Fel arfer rhoddir offerynnau i ddysgwyr ar ôl dangos iddynt sut i ofalu am yr offeryn yn briodol, mae hynny'n digwydd fel arfer yn ystod yr wythnos neu ddwy gyntaf ar ôl i'r gwersi ddechrau.

Bydd Gwasanaeth Cerdd Sir y Fflint yn rheoli a gweinyddu'r costau cynnal a chadw'n uniongyrchol â'r rhieni/gwarcheidwaid, a gesglir yn ystod tymor y gwanwyn. Mae'r ffi gynnal a chadw'n berthnasol i bob dysgwr, gan gynnwys y rheiny sy'n cael prydau ysgol am ddim.

Gobeithir y bydd y mwyafrif o ddysgwyr yn benthyca'r offerynnau am uchafswm o ddwy flynedd. Bydd pob dysgwr yn cael mynediad at y Cynllun Cymorth i Brynu Offeryn. Menter gan y llywodraeth yw hon sy'n galluogi dysgwyr i brynu offerynnau ar gyfer gwersi yn yr ysgol heb orfod talu TAW.

## Ysgol Gerdd Sir y Fflint

Mae gan ddysgwyr sy'n cael gwersi gan y Gwasanaeth Cerddoriaeth hawl i ymaelodi ag ensemblau Ysgol Gerdd Sir y Fflint, ar ôl iddynt gyrraedd y safon ofynnol. Mae'n costio £90 y flwyddyn i ymaelodi ag Ysgol Gerdd Sir y Fflint, sy'n cyfateb i ryw £2 yr awr. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r gwasanaeth cerdd ar 01352 704130 neu music.service@flintshire.gov.uk

Ar hyn o bryd mae'r Ysgol Gerdd yn darparu cyfleoedd i wneud cynnydd ac i berfformio ar safon uchel i oddeutu 350 o ddysgwyr mewn corau, cerddorfeydd llinynnol, bandiau chwyth, cerddorfa jazz ac ensemblau gitâr a thelyn. Mae dysgwyr yn cael mynediad at ymarferion wythnosol o 4.00 - 5.30pm, dan gyfarwyddyd arweinyddion a thiwtoriaid arbenigol o'r Gwasanaeth Cerdd.

1617-01144 Advice for Parents leaflet - Welsh.indd 2 27/04/2016 13:34